

CYNGOR CYMUNED EGLWYS BACH - COFNODION CYFARFOD 03/05/2016

PRESENOL: Cynghorwyr: Ceri Leeder, Austin Roberts, Gwyn M Jones, Arthur Williams, Gwyn Williams
John Emlyn Jones.

1. **CROESO:** Croesawodd y Cyng. Ceri Leeder, bawb i'r cyfarfod gan estyn croeso arbennig i Mr John Emlyn Jones. Cwblhaodd y ffurflen 'Datgan Derbyn Swydd'.

Darllenodd y Clerc lythyr o ymddiswyddiad gan Mr Richard Newsham. Diolchwyd iddo am ei wasanaeth o 7 mlynedd i'r gymuned. Y Clerc i hysbysebu'r swydd yn briodol.

Etholwyd y canlynol fel swyddogion am y flwyddyn 2016/17:

Cadeirydd = Austin Roberts

Is-gadeirydd = Gwyn Jones

Cynrychiolydd ar Lywodraethwyr yr Ysgol = Arthur Williams

Cynrychiolydd ar Bwyllgor y Neuadd = John Emlyn Jones.

Diolchwyd i'r Cyng. Ceri Leeder am ei gwaith ardderchog yn y gadair yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cymerodd Cyng. Austin Roberts y gadair.

2. **YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Katherine Himsworth, John Lloyd Williams.
3. **DATGAN DIDDORDEB:** Dim.
4. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF:** cafwyd cofnodion cyfarfod 04/04/16 yn gywir ac fe'u harwyddwyd.
5. **MATERION YN CODI O'R COFNODION:**

Pont Ffordd Bryn Hir - nododd y Cyng. Austin Roberts bod y ffermwr wedi cytuno i symud y fainc yn ôl i'r clawdd ar ei gost ei hun ac os bydd angen ail-adeiladu'r pileri cerrig, byddai'r Cyng. Roberts yn gwneud hyn. Bydd y ffermwr hefyd yn delio gyda'r ffos sy'n dod lawr o Ffordd Llety ac sy'n gwbl gaeedig.

Nododd y Cyng. Roberts bod y Sir yn edrych ar y posibilrwydd o osod rhywbeth o dan y bont er mwyn rhwystro defaid rhag mynd oddi tani.

Yn dilyn pryderon gan rai trigolion lleol, bu i'r Cyng. Austin Roberts a Katherine Himsworth gyfarfod a Mr Gwyn Parry a Mr Dyfed Rowlands o'r Sir er mwyn eu trafod. O ganlyniad, bydd y Sir yn monitro'r sefyllfa ac yn gwneud gwaith ychwanegol o gryfhau'r glannau erbyn yr haf. Byddant hefyd yn ail-edrych ar y bylchau sydd rhwng y caergewyll ond cafwyd cadarnhad bod y sianel o dan y bont 1.5m yn lletach nag o'r blaen. Bydd Swyddogion y Sir yn ymateb i'r llythyr o gwyn a dderbyniwyd.

Eglurodd y Cyng. Roberts ei fod wedi cael y Sir i ddarparu arwyddion cynghorol i'w gosod ger y bont. Trafodwyd a chytunwyd i'r Cyng. Roberts sicrhau bod yr arwyddion yn cael eu gosod yn y lleoliadau cywir.

Derbyniwyd llythyr o ganmoliaeth am y bont gan 'Vale of Clwyd Ramblers'.

Arwydd '1-6 Y Berllan' - bydd yr arwydd newydd yn cael ei osod ym mis Gorffennaf.

Hysbyseb Cynrychiolwyr Ifanc - nodwyd i adael y mater hyd nes bydd cynghorydd newydd wedi ei ethol.

Sgip ar gyfer defnydd domestig y gymuned - wedi ei threfnu ar gyfer 14/05/16 – 9:00a.m. - Maes Llan.

Man parcio anabl ochr stryd - 30 Maes Llan - cytunwyd i wrthod y cais ar y sail y byddai'n flaenoriaeth i geisiadau eraill.

Chwynladdwr ar balmentydd - cafwyd cadarnhad gan y Sir y byddant yn defnyddio deunydd gwahanol i'r chwistrellydd eleni, gyda'r gobaith na fydd problemau yn deillio o hyn.

Cynnydd mewn amser o wacau biniau duon - nodwyd bod Cyngor Conwy wedi cytuno i gynyddu'r amser gwacau i 3 wythnos a bydd cadarnhad yn fuan o ba ardaloedd fydd yn treialu'r cynllun bob 4 wythnos.

Plac a geiriad ar y fainc - cytunwyd i newid un frawddeg yn y darn Saesneg i "once again a part of our heritage". Cytunodd y Cyng. Austin Roberts i gysylltu â chwmni allai ysgrifennu'r plac a chael amcan bris.

6. **CEISIADAU CYNLLUNIO:**

0/42700 - Glan Aber, Eglwys Bach LL28 5TS - adeiladu garej ddwbl un llawr gydag adeilad allan/toiled. (Ôl-weithredol).

The Community Council have no objections to the above application but do have concerns.

The roof pitch seems needlessly high for the purposes of a garage and could potentially set a precedent to raising the roof of the adjoining building.

Also, the dimension suggests that an application for a 'change of use' i.e. accommodation, could be submitted in the future.

We are also aware that there are concerns among immediate residents: and would point out that the building is not invisible from the highway, as the applicant claims, but on the contrary has a high profile.

Penderfyniadau'r Sir ar Geisiadau Cynllunio:

0/42377 - Cwrt y Porthmyn, Tal y Cafn - caniatawyd.

7. **MATERION PENODOL I'W PENDERFYNU:**

Cynnig i greu llwybr troed o Graig i Eglwys Bach - darllenwyd llythyr gan un o'r trigolion lleol. Cytunwyd y byddai'n syniad da ac i'r Cyng. Austin Roberts drafod ymhellach gyda'r Adran berthnasol yn y Cyngor Sir. Y Cyng. Roberts i ymweld â'r trigolyn lleol hefyd. Cytunwyd hefyd i'r Cyng. Roberts drafod y posibilrwydd o gael uchafswm cyflymder o 40m.y.a. o Graig i North Lodge.

Cynnwys rhif ffôn/e-bost Cyngorwyr ar y wefan - trafodwyd a chytunwyd i beidio â gwneud hyn. Dylai unrhyw ymholiadau/cwynion gael eu cyfeirio at y Clerc.

Taliadau - Mrs Sue Hayward, Glanhau Toiledau - £98.00
Mr Wil Williams, torri gwaith mis Ebrill - £330.00
Mrs Einir Jones – cyflog a chostau'r Clerc ar gyfer mis Ebrill - £174.99
Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (Treth ar gyflog mis Ebrill y Clerc) - £37.50
Neuadd Aberconwy = £55.00

8. **GOHEBIAETH:**

- Ad-daliad glanhau toiledau cyhoeddus (04/04/15 – 04/03/16) - £1,176.00 [CBSC].

9. **UNRHYW FATER ARALL:**

Y fynwent - nodwyd nad yw'r fynwent yn cael ei gadael fel 'mynwent lawnt' wedi claddedigaeth. Cytunwyd i'r Cyng. John Lloyd Williams gael gair gyda'r ymgymerywyr.

Llwybr Dôl Hyfryd – Ysgubor Degwm - angen atgyweirio'r bont a gwella cyflwr y llwybr.

Cae chwarae - angen arwydd 'Dim Cwn' ar y giât.

10. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF:** nos Lun 06/06/2016 am 7:30 o'r gloch.